OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2021 Rhif 351 (Cy. 103)

CLEFYDAU GWENYN, CYMRU

Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio) 2021

2021 No. 351 (W. 103)

BEE DISEASES, WALES

The Bee Diseases and Pests Control (Wales) (Amendment) Order 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1710) (Cy. 172) ("Gorchymyn 2006") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli plâu a chlefydau sy'n effeithio ar wenyn.

Mae erthygl 2 yn mewnosod erthygl 2A yng Ngorchymyn 2006 sy'n ymwneud ag adrodd am bresenoldeb gwiddon Varroa. Mae erthygl 2A yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n berchen ar gwch neu sy'n gyfrifol am gwch adrodd am bresenoldeb unrhyw rywogaeth o'r gwiddonyn Varroa yn y cwch hwnnw i Weinidogion Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006 (S.I. 2006/1710) (W. 172) ("the 2006 Order") which makes provision for the control of pests and diseases affecting bees.

Article 2 inserts article 2A into the 2006 Order regarding reporting of the presence of Varroa mites. Article 2A requires persons owning or in charge of a hive to report the presence of any species of Varroa mite in that hive to the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2021 Rhif 351 (Cy. 103)

CLEFYDAU GWENYN, CYMRU

Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio) 2021

Gwnaed	*17 Mawrth 2021*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*19 Mawrth 2021*
Yn dod i rym	*21 Ebrill 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 1 o Ddeddf Gwenyn 1980(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio) 2021 a daw i rym ar 21 Ebrill 2021.

(**1**) 1980 p. 12. Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 1, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae'r cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2021 No. 351 (W. 103)

BEE DISEASES, WALES

The Bee Diseases and Pests Control (Wales) (Amendment) Order 2021

Made	*17 March 2021*
Laid before Senedd Cymru	*19 March 2021*
Coming into force	*21 April 2021*

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by section 1 of the Bees Act 1980(**1**).

Title and commencement

1. The title of this Order is the Bee Diseases and Pests Control (Wales) (Amendment) Order 2021 and it comes into force on 21 April 2021.

(**1**) 1980 c. 12. The functions of the Secretary of State for Wales under section 1 were, in so far as exercisable in relation to Wales transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were, in so far as exercisable in relation to Wales transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044). Functions conferred on the National Assembly for Wales now vest in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). References to the National Assembly for Wales now have effect as references to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006.

Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

2. Ar ôl erthygl 2 o Orchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006(**1**) mewnosoder—

"**Adrodd am widdon Varroa (Varroosis)**

2A. Rhaid i unrhyw berchennog neu'r person sy'n gyfrifol am gwch sy'n gwybod neu sy'n amau bod unrhyw rywogaeth o'r gwiddonyn Varroa yn bresennol yn y cwch adrodd am y ffaith honno i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol."

Amendment of the Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006

2. After article 2 of the Bee Diseases and Pests Control (Wales) Order 2006(**1**) insert—

"**Reporting of Varroa mite (Varroosis)**

2A. Any owner or person in charge of a hive who know or suspects that any species of the Varroa mite is present in the hive must report, as soon as practicable, that fact to the Welsh Ministers."

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
17 Mawrth 2021

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
17 March 2021

©℗Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2006/1710 (Cy. 172), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/226 (Cy. 44).

(**1**) S.I. 2006/1710 (W. 172), amended by S.I. 2011/226 (W. 44).

ISBN 978-0-348-20801-6

£4.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/351